Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog oedolion i wneud rhagor o ymarfer corff: Clwb Korfball RCT Comets

Rydyn ni'n falch o fod wedi cefnogi sefydliad a thwf Clwb Korfball RCT Comets. Mae'r clwb newydd a chynhwysol hyn wedi cyflwyno Korfball i RCT am y tro cyntaf, gan annog oedolion – yn ddynion ac yn fenywod - i wneud rhagor o ymarfer corff. Nod y clwb oedd denu pobl sydd ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, yn ogystal â'r rheiny oedd arfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol, ond a oedd wedi rhoi'r gorau iddo ers gadael yr ysgol.

Daeth yr unigolion a sefydlodd y clwb atom ni ac fe wnaethon ni eu cefnogi nhw i gwblhau'r broses achredu, gan sicrhau bod y llywodraethiant, y polisïau a'r strwythurau cywir ar waith gan y clwb. Ar ôl cael ei achredu, roedd modd i'r clwb wneud cais i'r Gronfa Chwaraeon yn y Gymuned, a ddarparodd £300 i dalu am gostau cychwynnol i logi'r neuadd. Roedd hynny wedi caniatáu i'r clwb ddechrau cyflwyno sesiynau rheolaidd. Mynychodd tri gwirfoddolwr y clwb ein cwrs Cymorth Cyntaf Chwaraeon, gan sicrhau bod modd iddyn nhw gyflwyno sesiynau'n ddiogel i bob cyfranogwr. Fe wnaethon ni hefyd roi cymorth i'r clwb o ran marchnata, trwy ddylunio ac argraffu taflenni a gafodd eu defnyddio ochr yn ochr â hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Mynychodd y clwb achlysuron lleol hefyd fel parkrun Pontypridd i godi ymwybyddiaeth. Fe wnaethon ni hefyd roi cymorth i'r clwb gyda'r broses o wneud cais am gyllid gwerth £4,673 gan y grant Cymru Actif - Chwaraeon Cymru.

Roedd y cais yma'n llwyddiannus, ac felly roedd modd prynu offer hanfodol megis pyst Korfball.

Mae'r clwb wedi gwneud cynnydd rhagorol ers ei sefydlu, gan ddenu 15 aelod newydd, a dyma oedd y tro cyntaf i rai o'r aelodau fod yn rhan o glwb chwaraeon. Mae amgylchedd croesawgar a chefnogol i'r sesiynau lle mae modd i bobl fwynhau bod yn heini, gwneud ffrindiau a bod yn gyfforddus ynddyn nhw ei hunain. Mae'r clwb yn perfformio'n dda yng Nghynghrair Korfball Cymru yn barod, gyda'r clwb yn eistedd ar frig Adran 2 ar hyn o bryd. Maen nhw'n gobeithio denu digon o aelodau fel bod modd cynnal dau dîm y tymor nesaf.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi'r clwb wrth iddo dyfu ac rydyn ni wedi ei ail-achredu'n ddiweddar. Rydyn ni hefyd wedi darparu cyllid o'r Gronfa Chwaraeon yn y Gymuned i gefnogi'r sesiynau "Niche Try Sport" sydd ar y gweill, sydd â'r bwriad o gyflwyno korfball i ragor o bobl.

> *"Mae ymuno ag RCT Comets wedi cynnig pethau gwerthfawr iawn i mi. Mae gen i nifer o ffrindiau newydd. Dwi wir yn teimlo fel fy mod i'n perthyn i'r clwb. Gwych yw gweld yr effaith gadarnhaol y mae'r clwb yn ei gael ar bawb sy'n ymuno â'r tîm. Mae'n rhywbeth rwy'n falch iawn o fod yn rhan ohono. Cyfranogwr"*

**15** aelod newydd

**100%** yn teimlo'n iachach

**100%** yn teimlo'n hapusach

**4** gwirfoddolwr newydd

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Cyllid gwerth **£5,673** wedi'i sicrhau

**100%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF

53434-15